**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
**Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Fawrth 22.04.2025**
yn Neuadd Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cynghorydd Julian Evans (Cadair.),Cyng.Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Bryan Davies a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Amy Evans, Cyng. Aled Jones a'r Cyng. Delme Phillips.

0**1.Datgelu Buddianau Personol:**
Dim.
0**2. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 17.03.2025**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.03.2025 yn gopi cywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Robin Bowen ac eiliwyd gan y Cyng. Elfed Davies.
0**3.Materion yn Codi o'r Cofnodion**
a. Materion Priffyrdd: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
b. Cyfleusterau Cyhoeddus -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
c. Diffibriliwr Cwmduad - Mae'r cais anfonwyd at Sefydliad y Galon Prydeinig wedi'i wrthod. Derbyniwyd siec oddi wrth y Cyng. Eifion Jones yn y swm o £662.72 sydd yn cynnwys:-

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Er cof am Goronwy Bowen | £350.00 |
| 2) | Er cof am Pat Watson | £200.00 |
| 3) | Rhoddion a gasglwyd gan bentref Cwmduad | £112.72 |

Clerc i ysgrifennu at Joyce Bowen, Peter Watson a Geoff Goodbourn i gydnabod y derbyniad a diolch iddynt ar ran y Cyngor am eu rhoddion. Mae'r arian i'w drosglwyddo i'r cyfrif a ddyrannwyd ar gyfer y diffibrilwyr hyd nes bydd y Cyngor yn prynu diffibriliwr newydd ar gyfer Cwmduad.
**04.Gohebiaeth.**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*
- Un Llais Cymru- Yn gwahodd cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - i gael ei gynnal ar ddydd Mercher 1 Hydref 2025, i'w gyflwyno erbyn 20 Mehefin 2025. Nodir yn unig gan fod cynnig i'w gyflwyno wedi'i drafod a chytunwyd ar y geiriad mewn cyfarfod blaenorol.

**05.Cynllunio**
**PL/09135-** Mynedfa amaethyddol newydd arfaethedig - Tir yn Fferm Llaine (Land at Llaine Farm), Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6SP - Penderfynodd y Cyngor gefnogi cais cynllunio PL/09135 ar yr amod y cedwir at yr holl amodau a argymhellir, ac fel y nodir ar gyfer y cais cynllunio hwn, gan Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, Adran Lle Seilwaith a Datblygiad Economaidd, Cyngor Sir Gâr .

**06.Taliadau a Chyllid**
(a) Taliadau a Chyllid

| | |
|---|---|
| • ME Davies Cyflog Clerc 03/25 - | £ 309.90 |
| • Maria Thomas Magic Mops- 03/03/25-31/03/25 | £ 230.00 |
| • Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed-Llogi'r Ystafell Ion.-Mawrth | £ 30.00 |
| • Cyngor Sir Gâr- Goleuadau Stryd-dyddiad yr anfoneb 25.3.25 | £1851.67 |

Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod a oedd yn ddyledus erbyn 31.03.2025.

| | |
|---|---|
| • Trydan EDF-Debyd Uniongyrchol - 01.03.25-31.03.2025 | £ 48.52 |
| • H.M.R.C. 1/4 (4) 2024/2025 Debyd Uniongyrchol | £ 232.60 |
| • ME Davies (Nibets-Dosbarthwr papur a phapur x2-Cyfleusterau Cyhoeddus) | £ 47.91 |
| • ME Davies - | £ 34.26 |
| • (amazon Squeegee Mop llawr y cyfleusterau £27.29 +£6.97 Llyfr | |
| • cofnodi amseroedd gweithio ar gyfer glanhawr y cyfleusterau cyhoeddus) | |

- Penderfynodd y Cyngor bod y taliadau a restrir uchod yn cael eu gwneud.

- ***YMCHWILIAD MEWNOL*** - Penderfynwyd penodi Heather Doody i gynnal yr ymchiliad mewnol eleni.
- ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU -

Fe wnaeth Cynghorydd Julian Evans wirio'r derbyniadau a thaliadau hyd at 31 Mawrth 2025 gan eu harwyddo er mwyn cadarnhau ei fod wedi gwneud hyn a'u bod yn ymddangos yn gywir.

## 07.Materion Priffyrdd:

### *Materion Priffyrdd adroddwyd ar 22.04.2025*

Nododd y Cyngor bod gwaith wedi'i wneud yn yr ardal a bod gwelliant mawr wedi'i wneud i'r bont troed sy'n rhan o'r llwybr cerdded yng Ngwmduad.

a) Stryd y Meddyg - dywedodd y Cyng.B.D. reported bod y mater mewn llaw i well a llif y dŵr a draeniau yn y man hwn.
b) Cyffordd Penrhiwcrynfryn - arwyddion newydd yn eu lle ond eto ddim yn ddigon clir. Penderfynodd y Cyngor fod yna welliannau y gellir eu gwneud er mwyn gwneud y gyffordd hon yn fwy gweladwy i yrwyr ar y C2043.
c) Swyddfa/Siop Cynwyl Elfed - mater mewn lle i osod cyfyngiadau parcio a man llwytho o flaen y siop yn ystod oriau gwaith.
d) Biniau ysbwriel - mae dau bin wedi'u codi o'r pentref - prynwyd y rhain gan y Cyngor Cymuned a bryd hynny cytunodd y Cyngor Sir i'w gwagio. Clerc i ysgrifennu eto at y Cyngor Sir i ofyn i'r biniau gael eu dychwelyd.
e) Dywedodd y Cyng. E.J.bod angen palmant yn Cwmduad o Heol y Bwt i'r pentref. Mae ceisiadau ysgrifenedig wedi'u gwneud yn y gorffennol heb lwyddiant.
f) Adroddwyd gan y Cyng. J.E. bod coeden a nodwyd fel un â gwywiad yr onnen ar bwys y lloches aros am bws ger Cyffordd Esgair yn parhau i fod yn beryglus gyda'i changhennau'n cwympo ar y lloches bws.
g) Glanhawr Stryd drwy Cynwyl Elfed - adroddwyd bod gwaith da wedi ei wneud heblaw ar ochr dde y ffordd A484 rhwng y cyfford gyda'r B4333 hyd at y bont lle ni chafodd ei lanhau.
h) Absenoldeb llinellau gwyn ar ochr y ffordd rhwng Penfforddnewydd a Tŷ Coch.
i) Tyllau bach yn y ffordd ar hyd yr A484 rhwng Garej Derwydd a pentref Cynwyl Elfed.

## 08. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau— Pwyllgor Cyfleusterau Cyhoeddus Cynwyl Elfed.

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Mae dosbarthwr papur wedi'i osod ar wall ciwbicl merched gan y Cyng. J.E.
- Mae'r Cyng. J.E. hefyd wedi gosod blwch "key safe" ar gyfer allwedd y storfa blaen, ger drws y storfa. Rhoddwyd y rhif pas i'r Cynghorwyr. Cedwir set lawn o allweddi yn y storfa flaen.
- Derbyniwyd alwad ffôn bod toiled y dynion wedi'i flocio - Galwodd y Cyng.J.E. yno a chlyrio'r boblem.
- Roedd y gweithiwr glanhau heb fod yn y gwaith am sawl diwrnod oherwydd bod ei char wedi torri lawr. Rhoddodd wybod i'r clerc ar y bore Llun a wnaeth y gwaith glanhau ar dydd Mawrth 15 Ebrill. Dychwelodd i'r gwaith ar ddydd Iau 17 Ebrill. Mae'r glanhawr wedi ei atgoffa i hysbysu'r clerc o flaen llaw am unrhyw diwrnodau na all fynychu'r gwaith glanhau. Mae llyfr cadw cofnod glanhau i'r gweithiwr glanau i nodi'r dyddiadau a'r amser y bu'n bresennol a hefyd i nodi'r gwaith a wnaed yn ystod yr amseroedd hynny.
- Dŵr Cymru - Mae'r mesurydd dŵr wedi ei ddarganfod, disgwylir derbyn anfoneb mis Ebrill cyn hir.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:** -
- Adroddwyd gan Cyng. J.E. nad yw cyfansoddiad ysgrifenedig y parc wedi dod i law, fodd bynnag yn ôl gwybodaeth leol os bydd Pwyllgor y Parc yn methu yna bydd gofal y parc yn dod o dan ofal y Cyngor Cymuned. Bydd y clerc yn ysgrifennu at Cyngor Sir Gaerfyrddin er mwyn cael gwybod os oes gan y Cyngor Sir unrhyw gofnod neu ddogfen a all cadarnhau hyn.
-

## 09. Unrhyw Mater Arall

- *Hyfforddi -* Mae pris cyrsiau Un Llais Cymru yn £42 y cwrs am aelodau Un Llais Cymru. Mae'r clerc wedi cysylltu a U.Ll.C. er mwyn cael gwybod os oes yna bwrsari ar gae. Roeddent heb dderbyn unrhywbeth oddi wrth Llywodraeth Cymru lan hyd at ddyddiad y cyfarfod hyn. Clerc i drefnu i'r Cyng. Robin Bowen i fynychu hyfforddiant - Deall y Gyfraith Modiwl 4 ac Aled Jones - Gynefino i Gynghorwyr Newydd a'r Cod Ymddygiad Modiwl 9.

**10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cyfarfod Blynyddol ar: **Nos Lun, 19 Mai 2025**
am**: 7:00** yr hwyr**.**
Cyfarfod misol i'w ddilyn am 7:30 *y.h.*
.

Daeth y cyfarfod i ben 21.30 awr..

………………………………………………………………
Cadeirydd.
………………………………………………………………
Dyddiad.